



Y STAMP

MENNA ELFYN

RHYS TRIMBLE

CARYL BRYN

SIAN MIRIAM

MORGAN OWEN

GWEN SAUNDERS JONES

Rhifyn 1 - Gwanwyn 2017

Y STAMP

RHIFYN 1

GWANWYN 2017



ystamp.cymru 0 @ystampus

Hawlfraint © 2017 Y Stamp
Argraffwyd gan Argraffwyr Cambrian

Dylunydd - Iestyn Tyne

DIOLCH

Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth am eu nawdd,
Cynghrair Cymunedau Cymraeg am eu cymorth a'u diddordeb,
Ein teuluoedd a'n ffrindiau,
I CHI, ddarllenwyr annwyl,

Ac yn bennaf oll, i'r holl stampwyr disglair sy'n eich disgwyl rhwng y cloriau hyn

CYNNWYS

Golygyddol	6	Cerdd - Grug Muse	22
Cerdd - Menna Elfyn	8	Adolygiadau	
Y Labordy - Gareth Evans Jones	9	<i>Pantywennol</i> - Ruth Richards	23
Cerdd - Caryl Bryn	12	<i>Optimist Absoliwt</i> - Menna Elfyn	24
Cerdd - Rhys Trimble	13	<i>Jwg ar Seld</i> - Lleucu Roberts	24
Ysgrif - Morgan Owen	14	<i>Y Gwreiddyn</i> - Caryl Lewis	25
Cerdd - Morgan Owen	16	<i>Macbeth</i> - Theatr Genedlaethol Cymru	25
Cyfweliad - Sian Miriam	17	<i>Llyfr Bach Paris</i> - Lara Catrin	26
AilBobi Jones - Gwen Saunders Jones	19	<i>Abermandraw</i> - Rhys Iorwerth	27
Englynion - Gwerful Mechain	21	Y Stampwyr	28

Y STAMP

GOLYGYDDION

Grug Muse / Miriam Elin Jones / Llŷr Titus / Iestyn Tyne



ystamp.cymru // @ystampus // facebook.com/ystampus

golygyddion.ystamp@gmail.com

👉 ARTISTIAID! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

Ar gyfer rhifynnau'r dyfodol byddwn yn chwilio am artistiaid i arddangos eu gwaith ar ein cloriau - cysylltwch os oes gennych ddiddordeb!

GOLYGYDDOL

Creu stôr o'r cychwyn cyntaf



Ddarlennydd, o annwyl ddarlennydd, heboch chwi, ni fyddai'r un pwrpas i'n bodolaeth. Chi - neu a gawn fod mor hy a dy alw'n 'ti' a bod yn ffrindiau gorau am byth? A gawn ni yn awr gyflwyno'n hachos ger dy fron?

Cyfes o gwestiynau gan ryw blant bach stroclyd 'sbardunodd y cylchgrawn hwn, sydd naill ai yn dy ddwylo ar ffurf rhifyn print neu ar sgrîn dy gyfrifiadur fel PDF. Grug Muse ddechreuodd bethau wrth gwestiynu diffyg amrywiaeth y sîn farddonol Gymraeg mewn rhifyn o Poetry Wales. Yn gryno, holodd; ble mae'r beirdd benywaidd? Be ddigwyddodd i'r beirdd nad ydynt yn raddedigion dosbarth canol? Ble mae'r beirdd anabl? Lle mae llais y gymuned LHDTTC+?

'Statistically, we are less likely to have poets from those demographic groups, but that does not excuse us from questioning whether our institutions are somehow prohibitive to members of those communities.' (Poetry Wales, Rhifyn 52)

Bu cryn drafod. Bu pyncio ar bodlediad Clera. Ateb pendant Osian Rhys Jones yw mai trwy addysgu mai annog. Meddai Miriam Elin Jones (Ia, ein MEJ hannwyl ni) mai'r modd y gosodir yr Eisteddfod ar bedastal fel be all and end all y profiad llenyddol oedd wrth wraidd y mater. Ac er mawr syndod, **bu llawer o gefnogaeth i'r syniad bod barddoni a llenyddia wedi mynd yn rhywbeth wedi ei gloi yng nghanol muriau plastig mawr yr Eisteddfod Genedlaethol, i griw dethol yn unig.** A dyna ddechrau ar gicio a stampio...

Addunedau

Cyhoeddwyd ein hamcanion wrth fwrw ati i greu Y Stamp ar y we, a hynny ar ffurf addunedau blwyddyn newydd y byddwn yn glynu atynt yn flynyddol. Yn y golygyddol hwn, pwysleisiwn mai **llwyfan newydd** yw Y Stamp. Lle newydd i gyhoeddi yn y Gymraeg. Mae **croeso i bawb** ar y llwyfan hwn; boed yn leisiau newydd fel Caryl Bryn neu'n hen stejars fel Menna Elfyn.

Yn naturiol, daw pob un o'r pedwar golygydd â'u syniadau personol i'r swydd. Gobaith Grug yw creu gofod rhydd o barchusrwydd a phwysau'r sefydliad, i wyntyllu syniadau newydd ac arbrofi, ac mae Iestyn yn deisyfu cyfarfod bardd neu lenor mawr newydd, a darparu meithrinfa i fagu crefft. Mae Llŷr yn gweld y fenter fel olynnydd teilwng i Tu Chwith ac fel cyfle i roi saim ar y tân a gweld beth ddigwyddith, ac i Miriam, cefnder i Gyfes y Beirdd Answyddogol gan y Lolfa ydyw. Yr hyn sydd gennym oll yn gyffredin yw'r **brwdfrydedd i greu platform arall i gyhoeddi llenyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ac annog pawb i greu.**

Cywirdeb ieithyddol

Un ddadl sydd wedi codi'i phen eto fyth yw cywirdeb ieithyddol. Pan gyhoeddwyd ein maniffesto gwreiddiol, roedd ein hagwedd... laid-back at gywirdeb iaith yn rywbeth ddenodd gryn sylw- a hynny o bosib ar draul ein hamcanion eraill, (yn ein tyb ni) pwysicach. Bwriadwn "ddathlu pob math o Gymraeg, boed yn enfys ieithyddol

frith a thafodiaith, neu'n gywir gywrain ac yn gyfoethog o eiriau mawrion." Yndi, mae safonau ieithyddol yn bwysig, ond nid yn hanfodol.

Culni yw deddfu'n absoliwt ar y math o iaith ganiateir a ni chaniateir mewn llenyddiaeth, fel deddfu mai paent olew yw unig gyfrwng gwir artist a gwahardd y bensil siarcol, y dyfrlliw a'r clai. Y mae gwaith gwael yn waith gwael beth bynnag yw cywirdeb yr iaith. Nid yw cywirdeb iaith yn amod o safon.

Offeryn yw iaith, i'w defnyddio fel unrhyw arf neu offeryn arall i greu celfyddyd, a gobeithiwn fod yn y rhifyn hwn dystiolaeth o ehanger posibiliadau yr offeryn hwn, o iaith ansathredig, gyfoethog ysgrif a cherdd Morgan Owen, i aestheteg amrwd cerdd avant garde Rhys Trimble

Yr hyn yr hoffem ei ddatgan yma mewn du a gwyn yn ddigon plaen yw nad ydym yn ymwrthod yn llwyr gyda'r orgraff, ond na ddylai neb deimlo cywilydd o gywirdeb eu hiaith. Yn Y Stamp, cyfrifoldeb y golygyddion yw gramadeg. Blaenoriaeth ein hartistiaid yw creu.

Y Dyfodol

Edrycha o dy gwmpas. Mae Facebook yn frith o erthyglau am y byd a'i bethau. Pawb yn rhannu barn mewn 140 o lythrennau ar Twitter. Mae 'na erchyllbethau wedi meddiannu ein llywodraethau ar bob lefel, ym mhedwar ban byd.

Gobeithiwn o waelod calon bydd ein cyhoeddiad bach ni - a redir yn wirfoddol - yn ffordd fach o gwffio'n erbyn ceidwadaeth a ofnusrwydd eithafol, gwrth-ddeallusrwydd, diffyg-empathi a rhagfarn. Dyma gyfle i wneud mwy na chwyno ar ffurf trydariat 140 o lythrennau. Dyma gyfle i greu, nid yn unig gelfyddyd, ond ein byd o'r newydd. Dyma gyfle i wrthod derbyn. Cyfle i wneud rhywbeth sydd yn werth ei wneud. *(ciw yr utgyrn).*

Annwylaf, hyfrytaf, fendigediocaf ddarllenyydd. Rwy'ti, yn anad neb, yn allweddol i'n gallu i wneud hynny. Rydym am i ti gyfrannu - boed hynny drwy ddarn ysgrifenedig, trwy waith gweledol, wrth fachu dy gopi o Y Stamp a mwynhau darllen neu hyd yn oed â cold, hard cash, os mai dyna yw dy

bethe di.

Ymlaen felly, a chyda diolch mawr gan eich ffyddlonaf ologyddion;

Grug Muse
Miriam Elin Jones
Iestyn Tyne
Llŷr Titus

Mawrth 2017.



MENNA ELFYN

OCH

*I always said that when I met MacDiarmid, I had met a great poet who said 'Och'.
I felt confirmed.., in that monosyllable there's a world view nearly.*

O bob byd, byd yr och
sydd ynom a'r ochenaidd,
gwaedd yw o waed y galon.
Daw o'n mêr a'n hesgyrn
a phwy a wŷr na ddaeth i fod
wrth inni rannu och gydag ach
a fentrodd i'r Hen Ogledd
'och a gwae' ydoedd hi,
Catraeth a'i hiraeth hir,
sill ydoedd heb esboniad.
O'r anair 'och', arhosodd
fel llef ar wefus
i'w yngan pan fo angau
yn ein fferru'n fud.

Hyd heddiw
yr och ddolefus a erys
hanner canrif a aeth ymaith,
a rhif y gwllith ei felltith.
A'r 'O' a'r 'ch'
fel odl nad yw'n huawdl
am nad oes ateb iddi--

hi yn gerdd un gair
anorffenedig,
och o'r anadl a gollwyd
yw Aberfan.

Bydd *Och* yn cael ei chyhoeddi yng nghyfrol newydd Menna
Elfyn, *Bondo*, fydd allan gyda Bloodaxe Books yn Hydref 2017.

Y LAB RDY

Ym mhob rhifyn, mi fydd Y STAMP yn herio beirdd neu lenorion i arbrofi â ffurfiau anghyfarwydd. Y tro yma, cafodd Gareth Evans Jones yr her o droi ei law at greu darn o ffuglen wyddonol. Dyma'r canlyniad...

GARETH EVANS JONES AR DROTHWY '17

'Ddoi di ddim i ben â gneud y gwaith fel'na, boi!

Ni wrandawodd Nedw ar Dima; plygodd yn ei gwrcwd a rhawio chwaneg o ludw i'r sachliain.

'Ddoi di ddim i ben,' meddai eto, gan dynnu ar ei e-bibell.

Trodd Nedw a chodi'i fys canol arno.

'Ew, ma gen inna ddau yma, 'li,' a chododd Dima'i fysedd yntau'n ôl.


Hen ful o ddiwrnod oedd hi, gyda'r niwl yn gwrthod codi. Bu'r ddau yno, ar dir Maes Comin ers ben bore yn ceisio hel digon o ludw i'r cod, yn barod erbyn y noson honno. Roedd '17 yn argoeli i fod yn flwyddyn hegr – os oeddech chi'n gwrandao ar y seiri tywydd a'r gwae-dyddion. Ond doedd proffwydo trallod yn ddim byd newydd i'r ddau grŵp yna – roedd y naill wedi proffwydo y deuai yfflon o gorwynt i lyncu'r wlad (ddigwyddodd hynny ddim), a'r llall wedi darogan y deuai mab afradlon i gadw Sêr y Senedd yn gynnes – digwyddodd, a darfodd pan losgwyd y Senedd gan seren wib, bron i hanner canrif yn ôl. Bu i'r seiri tywydd ddamnio'i gilydd am fetu rhagweld hynny.

'Ddoi di ddim i ben,' canodd Dima eto, wrth bwysu'i gefn yn erbyn y graig.

'Pam?! E? Pam ddiawl ddo i ddim i ben? O leia mi dwi'n gneud rhwbath yn lle ista ar 'y nhin yn gwenwyno'n hun!'

'Ddoi di ddim i ben,' atebodd Dima'n bwylllog, 'am fod 'na dwll yn dy sachliain. Crinc!'

Edrychodd Nedw wrth ei draed a gweld y llwybr llwyd o'i gwmpas. Damniodd dan ei wynt, doedd yna fawr o ludw ar hyd y tir comin erbyn hyn fel yr oedd hi – pawb yn y pentre wedi cael yr un syniad mae'n rhaid. Pawb a goeliai, beth bynnag. 'Asthma gei di'n taenu hen ludw ar hyd y lle 'ma, nid lwc!' meddai ei wraig wrtho'r noson gynt.



Ella mai coel gwrach oedd y cyfan, meddylodd Nedw droeon, ond pe na fyddai'n mentro, byddai'n sicr ar ei golled o unrhyw lwc 'lasai ddod i'w ran. Bendith y nef, roedd arno angen trio rhywbeth.

'Duwcs, jyst llenwa dy bocedi, fydd gen ti hen ddigon i sbrinclo wedyn.'

Taflodd Nedw'r sachliain at Dima a rhegi dan ei wynt. Dima fuodd yn rhannol gyfrifol am borthi'r goel yn y lle cynta.

Un noson yn Nhŷ Potas Isa, a doethineb casgen gwrw'n llenwi'r lle, soniodd Dima am arfer yn yr hen Sir Fôn, a oedd â'i seiliau yn Efengyl Mathew (gan nad oedd gan bron neb Feibl yn yr ochrau hyn bellach, rhaid oedd i Nedw gymryd gair ei gefnder), arfer o hel lludw'r flwyddyn a fu farw a orwedda'i ar hyd y wlad, a'i gymryd i'ch cartref er mwyn dod â bywyd newydd i'r aelwyd gyda thro'r deuddegfed mis. Os oeddech chi'n ffodus, byddai'r lludw, medden nhw, yn troi'n yd, yn aur, ac ambell dro (yn ôl cofnod o dŷ ffarm yn ochrau Gwalchmai), byddai deryn bach coch yn cael ei ddeor ohono. Doedd gan Nedw ddim awydd 'bwji'n y tŷ' ond roedd y syniad o gynhafiaeth neu

gyfoeth ar aelwyd wedi cydio ynddo, ac ers y noson honno, daeth y cyfan yn fath o obsesiwn ganddo.

'Ydan, ydan ni'n ca'l? ... W'sti ... Ydi mynd â rhyw lond llaw adra'n *kosher*?'

Er gwaetha ochr herfeiddiol Nedw, byddai'r hogyn-bach-chwech-oed-ofn-cansen-capel wastad yn brigo i'r wyneb. Ers i Nedw gofio, roedd yn rhaid gadael y lludw lle'r oedd o ar gyfer yr Enedigaeth Fawr: pan fyddai'r lludw'n goleuo'n las, yn codi'n drymaidd i'r awyr ac yn anweddu i'r flwyddyn newydd.

'Wel,' meddai Dima, cyn yfed gweddill y tancard ar ei ben, 'di o 'mond fath â hel mwyr ar ochr lân.'

'Well gen i fwyar o ochr mynydd. 'Sna'm ffwms ceir 'di maeddu rheini.'

Chwarddodd y ddau, yn ogystal â'r sawl a oedd yn ddigon sobr i ddallt y sgwrs.

Roedd Nedw bellach wedi llenwi'i bocedi i'r ymylon. Roedd Dima hefyd wedi casglu chydig, er na fyddai'n mynd ati i daenu rhyw lawer o'r lludw o gwmpas yr hofel. Deigryn yn y môr o beth fuasai gwneud hynny. A beth bynnag, roedd ar ei gefnder fwy o angen lwc nag yr oedd o, efo gwraig, tyddyn i'w gynnal, a sbrog ar y ffordd.

'Golwg glaw arni, 'chan.'

Trodd Nedw ar ei sawdl ac aeth y ddau'n ôl am y pentre.

*

Roedd y rhes fel sliwan yn symud. Roedd sawl un wedi bod yn nôl y petha munud ola y mae'n rhaid eu cael er mwyn i'r Enedigaeth Fawr fod yn enedigaeth iach. Daeth gwên i wyneb Dima wrth weld sawl un yn llwythog o'i gwmpas, a sawl un arall efo'r un olwg ag oedd gan Nedw wedi sodro ar eu hwynebau. Doedd dim rhaid iddyn nhw boeni, meddylodd Dima, gan fod y porthor yn gwybod yn iawn beth oedd yn llenwi'u pocedi, ac yn gwybod yn iawn mai chwedl ddi-sail, ddi-help oedd y cyfan. Ond roedd hi'n werth ei chael, er 'myrraeth.

Camodd y rhes yn nes at y porthor. Zondyrs fyddai yno fel arfer, a'i drwyn-pig-brân uwch ei lechen, ond roedd hi'n wyliau, chwarae teg, felly roedd yna ryw borthor-sgerbwd wrth dwnnel y mur y pnawn hwnnw.

Doedd Dima dal heb arfer efo'r holl gyboitsh yr oedd

yn rhaid ei wneud cyn cael mynediad i'r pentre. Rhaid oedd sganio bys neu fawd, wedyn sganio llygad (rhag ofn fod rhywun wedi torri bys neu fawd oddi ar law rhywun oedd yn hanu o Dreddinas), ac wedyn yn gorfod poeri i dwmffat a lifai i grombil peiriant er mwyn gwirio fod y DNA'n cyfateb i un o 'drigolion cynhenid y pentre'. Wedyn byddai'r porthor gwyn mewn lifrai (Zondyrs fel arfer) yn gwirio'r canlyniadau ac yn pwyso'r botwm. Un peth da o wneud hynny, cyfaddefai Dima lawer gwaith, byddai 'na wastad le parcio yn y pentre.

Camodd y ddau'n nes at y mur. Roedd Nedw'n amlwg yn anniddig, a'i dalcen yn lleithio'n sydyn. Pwniodd Dima gefn ei gefnder a sythodd yntau. Yna, stopiodd y rhes yn stond. Roedd y porth wedi rhewi ac yntau wedi hanner ei agor. Dechreuodd y bobl sisial ymysg ei gilydd. Safodd Nedw ar flaenau'i draed er mwyn cael golwg well. Roedd y porthor-sgerbwd yn pwio'i fysedd ar y llechen am yn ail â chodi'i ben, wrth i leisiau'r bobl dorri ar draws ei gilydd.

'Ma petha 'di dechra! Myn dia'n i, maen nhw 'di dechra!'

'O'ddan nhw'n iawn, 'lly – be o'ddan nhw'n darogan! Ma petha am fynd lawr srowth nwan!'

'O, sa i'n gwobod ambwiti 'ny!'

Yn y man, cyhoeddwyd mai problem efo'r drws pen arall i Dwnnel T.R.U.M.P. oedd achos yr oedi. Doedd hynny'n ddim byd newydd. Roedd system y Twannel yn hen fel pechod ac mor ddiffygiol ag Adda. 'Wel, o leia fod o'n cadw'n gydnaws â'r diawl y cafodd ei enwi ar ei ôl,' meddai hen nain Dima wrtho unwaith, wrth iddo wneud ei waith cartref Hanes. Roedd yr arlywydd hwnnw ymysg yr urdd o wleidyddion mawr a mân a ddaeth â 'newid' i'r drefn ddechrau'r unfed ganrif ar hugain; gan gynnwys un gŵr llyffantog â chyfenw Ffrengig, a gŵr eglwysig na lwyddodd i ennill Nobel er gwaetha'r ffaith fod ei gyfenw'n odli'n berffaith â'r wob. Yr urdd hon oedd Brodyr Babel. Ac yn driw i stori'r Tŵr, llwyddodd y Brodyr i godi muriau a gwahanu cenedloedd. Wel, Brawd Bach y Brodyr a gynlluniodd system ddiffygiol y Twannel mewn gwirionedd. Chwarae teg, nid Edison mohono. Ond er hynny, roedd y rhwydwaith hwn o furiau'n estyn yn batrwm gwe pry cop o un pen y wlad i'r llall. Cripodd gwên i wyneb Dima wrth feddwl am hynny.

'Be sy?' gofynnodd Nedw.

Sobrodd Dima a nodio'i ben, 'Yli, ma nhw 'di trwsio'r peth rŵan.'

Sionciodd y rhes eto a symud fymryn yn gynt gan fod y dydd yn tynnu'i gynffon ato.

Aeth y ddau at y sgerbwd, sganio, poeri a chroesi'r porth yn gwbl diddafferth. Cerddodd y ddau drwy'r pentre, heibio i'r baneri, y murluniau a'r cerfluniau a godwyd fel rhan o'r dathliadau.

Aeth y ddau heibio gŵr pen moel a eisteddai o flaen ffownten y parc heb sylwi arno, fo na'i lygaid cymylog yn rhythu ar yr awyr. Roedd bysedd y saer tywydd fel morgrug yn ceisio dirnad yr arwyddion, yn ceisio'n daer weld yr hyn a oedd yn cyniwair tu hwnt i'r awel groes.

'Ti dal ddim am ddod i'r llyn heno?'

'I ga'l sefyll yno'n rhynnu am ddwyawr i weld yr un peth dwi 'di gweld droeon o'r blaen?' gofynnodd Dima.

'Ti'n siŵr?'

'Berffaith, 'sti. Na, dwi'n edrych 'mlaen at ga'l noson o flaen y bocs efo dwsin o ganiau!'

Cytunodd Nedw. Fe wyddai nad oedd diben dadlau efo'i gefnder. Yn wahanol i Nedw, doedd Dima ddim yn geiliog gwynt. Ffarweliodd y ddau ac aeth Nedw i mewn i'r tŷ. Ond cyn i Dima gychwyn am yr hofel, rhawiodd gynnwys ei boced a sgeintio'r lludw cyfrin o flaen giât y tyddyn.

*

Taenwyd y lludw ar hyd cartrefi, strydoedd, a chaeau erbyn yr Enedigaeth Fawr.

Cynhaliwyd partion mewn sawl man ar hyd y sir. Bu cais sawl un am fisa i dreulio'r noson gyda pherthynas mewn man arall yn llwyddiannus. Roedd nifer fawr wedi ymgasglu ar lan y llyn i wyllo'r sbectacl, ambell henwr neu gwpl yn eu cartrefi o flaen eu llefydd tân, a Dima'n chwyrnu cysgu efo'r hen gi'n gorwedd ar ei ben.

Ar ben yr awr, cododd y lludw'n araf i'r awyr i gyfeiliant ebychiadau'r gwylwyr. Dawnsiodd yn donnog o'u blaenau am sbel gan fflachio bob yn hyn a hyn. Ond yna'n gwbl annisgwyl, tasgodd y lludw'n goch llachar, cyn dechrau poeri cols i bob cyfeiriad. Gorfu i'r bobl ar ymyl y llyn ei heglu hi ond roedd pob man a phopeth o'u cwmpas

ynghyn: gwrychoedd, coed, tai, ceir, ac ambell berson erbyn gweld.

Rhedodd Nedw a Gweni, ei wraig, gyda'r dorf i gyfeiriad y mur, ond roedd y porthor-sgerbwd wedi toddi a dim modd agor y Twannel. Yn eu panig, curodd sawl un yn erbyn y porth, crafu'r wyneb a cheisio holli'r metel, ond doedd dim symud arno. Ac wrth i'r fflamau gydio a'r metel boethi, doedd dim modd i'r bobl ei gyffwrdd.

Ystyriodd ambell un redeg i nôl dŵr o'r llyn, ond fyddai dim gobaith gollwng piser i'r dŵr gan fod yr amddiffynfeydd atal llifogydd yn gregyn dur dros y lan. Yna, ceisiodd sawl un ddringo'r mur. Aeth rhai i nôl ystolion ond roedd pawb am y gorau'n gwthio'i gilydd i geisio dianc o'r pentre.

'Plant yn gynta, wedyn y merchaid!' cynigodd un egwyddorol, ond boddwyd ei lais gan sŵn cega a ffraeo.

'Dima,' trawyd Nedw. 'Gweni, be am Dima?'

'Fydd o'n iawn, siŵr.'

'Ond 'di o'm yma – ar gyfyl y porth –'

'Dima ydi o. Fydd o 'di ffendio ryw ffordd o 'ma, siŵr i chdi!'

Roedd y coed yn golofnau tân o'u cwmpas a'r mwg o'r tai yn esgyn yn fwanod i'r nos. Edrychodd Gweni o'i hamgylch wrth i gyfres o gleciadau godi, gyda cheir yn ffrwydro a chartrefi'n cael eu rheibio. Gwthiodd y dorf yn eu herbyn a rhywsut neu'i gilydd, cafodd Gweni a Nedw eu gwahanu gan y lli. Galwodd y ddau ar ei gilydd ond prin oedd modd iddyn nhw glywed eu lleisiau eu hunain.

Gwthiwyd Nedw at griw o ddynion â rhawiau, rhoddwyd un yn ei law a'i orchymyn i'w helpu i balu twannel. Ufuddhaodd yntau ar unwaith gan geisio peidio â phoeni am Gweni, ac am y ffaith, yn ôl pob tebyg, mai'r un olygfa fuasen nhw'n ei gweld ben arall i'w twannel.

'Dowch 'laen 'ogia! ... Blydi hel, brysiwch!'

Yna, o gil ei lygad, sylwodd Nedw ar y gŵr pen moel yn eistedd yn dawel wrth y llyn, ei gefn at y fflamau, cŷn yn ei law, a dagrau cochion yn staenio'i wyneb, wrth iddo syllu ar yr awyr.

Ac yn yr oriau mân hynny, wrth i '17 gael ei boddi gan fedydd tân, cysgodd Dima a'r ci drwy'r cyfan.

CARYL BRYN

PLATFORM 2, WIRRAL LINE

Daw haid o sodlau rhad
a phapur newydd Liverpool Echo
i ymgasglu'n brysur,
a cheisio darganfod cysur
yng ngwên 'bore Llun'
ei gilydd.

Brysiat'r trê'n heibio Bromborough,
gan ddianc
i ddychwelyd 'mhen 'rawr,
gan gludo'r hac boliog
a'r prins drudfawr
i'w cyrchfan
cyn hedfan heibio hanes Penny Lane

...
A minnau'n ddim ond cysgod craith
gyferbyn i'r dyn â'r wên gam.
Do'n i'n ddim ond pâr o
Dr Martens
a siaced denim
â'm cymreictod yn llwch ar lawr y trê'n.

'Rhyd y strydoedd chewing gum,
rhwng y rapyrs KFC
roedd ganddi hi,
Y Gymraeg,
yr hawl i lusgo'i thraed
yn fan'ma.

RHYS TRIMBLE

PWYTHAU

cwch i ddŵr - heb ddau - stryd
 - beirniadaeth - gwneud -
 efydd - urdd - cinio
 - melyn - newid
 gweld gwall - testun - greddf
 - syniadau - adar -
 trydydd - her - cofeb
 - efengyl - i gyd -
 fan hyn - gorwel - wenoliaid
 - einioes - fewnol -
 mesur - llwynog - gwyrthiau
 - tusw - oriawr -
 wahanol - glas - ysgariad
 - ymyl - cyfeiriad -
 gole' - hen - lun
 - hawl - i grinwch -
 trawiad - gronyn - bysedd
 - ŵy - dros gofal -

MORGAN OWEN

NITHIO'R POETHWEL

Un o'r addewidion ym maniffesto Y STAMP yw i "DDATHLU pob math o Gymraeg, boed yn enfys ieithyddol frith a thafodiaith neu'n gywir gywrain ac yn gyfoethog o eiriau mawrion." Un sy'n ysgrifennu mewn arddull lenyddol safonol iawn yw Morgan Owen, a dyma fo'n ymhelaethu ar ei ddewis i wneud hynny mewn ysgrif arbennig.

Nid oes raid craffu'n hir nes sylweddoli taw'r arddull lafar sydd yn llywodraethu ar ein llên. Dyma gywair y rhan fwyaf o'n rhyddiaith a hi yw dilysnod ein barddoniaeth yn ogystal—ar y cyfan. Cymaint yw'r bri arni fel bod llenorion Cymraeg yn ymsensro rhag ysgrifennu mewn ffordd 'hen ffasiwn' neu 'lenyddol'; sef, yn y Gymru sydd ohoni, fwyseiriau am Gymraeg ansathredig. A chyn i neb frochi, nid term difriol yw 'ansathredig' yn y cyswllt hwn, ond disgrifiad llythrennol o iaith anghyffredin: llwybr nas sethrir mor aml â'r hen rigolau poblogaidd. Bydd i'r iaith lafar ei lle o hyd yn ein llên, ond nid hi yw popeth, wedi'r cyfan. Sylwer i mi beidio â'i galw'n arddull neu gywair 'anffurfiol': ffug-ddeuoiaethau ydyw 'ffurfiol' ac 'anffurfiol', 'llenyddol' a 'chyffredin' wrth drafod llên Gymraeg, ac fe ddangosaf pam am taw dyma asgwrn cynnen a maen tramgwydd di-angen sydd yn llyffetheirio nid yn unig ein llên ond ein hiaith yn gyffredinol.

Dau reswm sydd gennyf dros ddyrchafu ac amddiffyn Cymraeg 'ansathredig': celfyddydol yw'r cyntaf; ymarferol yw'r ail.

Fe all fod iaith, fel y dywedodd un athronydd, yn cuddio'r meddwl yn hytrach na'i amlygu am na ellir lleihau dichonoldeb di-ben-draw profiadau bodau dynol i un eirfa, i un iaith. Hyd yn oed yn hynny o beth, ni ellir ond mynegi'r pethau hynny sydd yn ganfyddadwy yn y lle cyntaf, sef un rhithyn o'r hyn y sydd—neu'r hyn y gwyddys y sydd. Ond er gwaethaf yr anhawster cosmig hwn, mae'n rhaid cyfathrebu, ac mae gennym iaith at y perwyl hwnnw. Tra bo'r ysfa i gyfleu'r wyrth o fod yn fyw, bydd llên yn fyw; a thra bôm yn ymboeni â chyfathrebu, er mor anghyflawn y bo, oni ddylem ymdrechu at oresgyn cyffredinedd iaith trwy geisio fynd mor agos at ruddin pethau ag y gallom fynd? Hynny yw, gwthio iaith i'w heithaf i gonsurio'r hyn a brofw'n?

Os felly, credaf fod distyllu cymaint o ystyr ag a ellir ym mhob gair yn nod gwiw. Gellid dadlau taw gwefru iaith



yn y modd hwn yw nod amgen llên, ond penagored yw ei diffiniad, ac nid oes a wnelom yma â'r cwestiwn hwnnw. Ond o ran geirfa: onid gwell yw defnyddio gair sydd yn cyfleu syniad cyflawn nag ymadroddi'n gwmpasog er mwyn ei gyfleu, fel y'i hamgyffredir yn fwy greddfoll? A hynny hyd yn oed os nad yw'r gair yn air cyffredin, yn air hynafol neu, a ffeiddiaf yr ymadrodd, yn air marw? Er enghraifft, gallwn sôn am dir heb ei droi ers blynyddoedd, neu y gallwn sôn am *wyndwn*; gallwn drafod un sydd â hawl arbennig dros rywbeth fel ei wir berchennog, neu y gallwn drafod *priodor*; gallwn farddoni am rug a led-losgwyd ar y rhos, neu y gallwn farddoni am *boethwel*. Nid cywasgu iaith i'r graddau eithaf bob tro yw'r nod, ond peidio ag ymwrthod â geiriau mor wych â'r rhain oherwydd obsesiwn â'r iaith lafar sydd wedi eu hepgor nhw.

Ac felly o ran gramadeg a chystrawen: nid yr un ystyr sydd i'r dibynnol presennol a'r mynegol presennol, a ffolineb yw ymwrthod â'r modd dibynnol am nad yw'n cyfateb i chwaeth or-lafar, bid a fo am ei brinder heddiw. Amrywiaeth sydd yn bywiocau iaith, a bydd amrywio

cystrawen trwy ddefnyddio ffurfiau cryno yn ystwytho unrhyw ddarn. Gallwn fod wedi pentyrru ymadroddion cwmpasog fel hyn, ond aethai'n ddiflas gen i eisoes. Mae gwarafun arddull 'lennyddol' i'r Gymraeg megis prynu car newydd er mwyn ei droi'n gart ychen.

Yn ail: mae'n llenorion mwyaf llafar eu harddull yn amlach na pheidio yn ysgrifennu yn y Saesneg hefyd. Ni fyddent am eiliad yn beiddio ysgrifennu mor llafar yn y Saesneg, na defnyddio iaith fwriadol sathredig i'r un graddau ag a wnânt yn y Gymraeg. Yn sicr, ni fyddent yn cymysgu eu Saesneg blith draphlith â rhyw iaith arall, hyd yn oed os ysgrifennent ar gyfer cynulleidfa ddwyieithog. Mae'r cyfryw lenorion Cymraeg yn ysgrifennu mewn

Saesneg graenus, 'lennyddol' heb unrhyw bangfeydd cydwybod. Yr hyn a wna orfodi llafarogrwydd ar y Gymraeg a gomedd iddi lenyddoldeb yw atgyfnerthu'r anghydbwysedd grym rhwng y ddwy iaith, lle mae popeth o bwys yn digwydd yn anorfod yn y Saesneg a'r Gymraeg yn iaith buarth, fel petai. Mae'r fath sefyllfa yn amlygu diffyg hyder yn y Gymraeg, a weithiau, ymdrybaeddu yn ei darostyngiad.

Mae eithriadau i'r uchod, wrth gwrs, ond mae llafarogrwydd yn iau ar war llên Gymraeg pan na ddylai fod. Mae ei hangen, ac mae iddi ei phrydferthwch, ond nid yw hynny'n golygu rhwymo ein tafodau. Hir y parhau disgleirdeb Cymraeg llenyddol—a llafar.

wedi methu unrhyw beth ar ystamp.cymru?



Dyma flas o'r wledd sy'n eich aros:

Stori Fer: Safbwynt
Cerdyn Post Creadigol: Berlin
Cartŵn: Aneurig
Cerdd: Kalamari
Cerdd: 'Torrydd' Eisteddfod
Cyfweliad a Chelf: Cryf fel Llew
Profiad: Gobaith
Cerdd: Gwersi Hanes
Dyddiadur Teithio: Salar de Uyuni & El Bolsón
Cerdd: Cariad na fu na fydd
Adolygiad: 'Haul' gan Adwaith
Rhestr Ddarllen: Deg Nofel Arabeg
Cerdyn Post Creadigol: Awstria
Dathlu: Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2017

Ifan Tomos Jenkins
Miriam Elin Jones
Janice Ann Jones
Caryl Bryn
Rhys Trimble
Bethan Mai
Mary Muse
Iestyn Tyne
Elin Gruffydd
Hynek Janoušek
Iestyn Tyne
Asim Qurashi
Elin Wyn Erfyl Jones
Elinor Wyn Reynolds
Ifan Morgan Jones
Hannah Sams

MORGAN OWEN HALLTFRAU

Gwasgarwyd esgyrn ar y traeth drannoeth y ddrycin.
Rhesi can blith draphlith yn gyfrodedd â'r gwymon.
Bwriwyd y rhain o gôl y weilgi gan ffromedd storm;
Breuwyd y brigach gan yr heli, a'u llyfnhau o'u trafod
Rhwng dwylo hallt. Yma, maent yn crugo mewn cilfach
Neilltuedig, lle na dderbyniant goffadwriaeth deg na chlod.
Yma, fe ymgasgla herwyr yr haf o boptu'r morglawdd briw,
yn offrwm gwyn rhag y tonnau du.

Wele'n gorwedd ar y grodir genhadon y pair.
Y rhain oedd gwystlon ein gobaith y ciliai'r mordwy ac yr afradlonai'r
coed yn las a thew; y rhain oedd ein hatgoffâd y ffrwydra'r egin
wedi'r hirlwm, ond yma dônt yn lluoedd, yn gynnud i'n coelcerthi,
a'n gwrogaeth ni ein dau fydd llosgi galarwisg y gaeaf
ar oddaith y merthyron hyn.

CYFWELIAD

Grug Muse yn holi

SIÂN MIRIAM

Tros goffi yng Nghaernarfon un pnawn o Ragfyr llwm mi fuodd Grug Muse, ar ran Y Stamp yn holi yr artist Siân Miriam. Yn wreiddiol o Langristiolus yn Sir Fôn, mae hi'n rhannu ei hamser erbyn hyn rhwng tref Caernarfon a'r fam Ynys. Fel cerddor, perfformwraig, cantores, actores, tiwtor llaw-rydd, artist gweledol a chlywedol a chyfansoddwraig, dyma artist sy'n ymgnawdoliad byw o ddyfeisgarwch gwlad y medra ac edgyness Llundeinig.

Mi ddechreuon ni drwy holi pwy yn union ydi'r ddynes ifanc 'ma efo gwallt asymetrig a modrwy yn ei thrwyn, a be sy'n ei gyrru hi'?

SM: *Dwi'n dod o sir Fôn yn wreiddiol, ond pan oni'n ddeunaw mi o ni'n barod i adael yr Ynys, ac mi es i i Lundain yn syth ar ôl y chweched i astudio Cerdd. Yn y dechrau o ni'n meddwl gwneud drama, ond am bo gena fi'r ddau [drama a chanu] law yn llaw ers o ni'n fach, mi wnes i yn ddewis cwrs BA Popular Music. Yn rhannol, oherwydd mod i wedi ennill brwydr y bandiau Radio Cymru [2011] ac o hynny mi ges i'r hyder i fynd i berfformio yn unigol, er mod i wedi bod yn cyfansoddi ers erioed. Mi wnes i benderfynu dilyn hynny mewn gradd oedd yn canolbwyntio ar 'sgwennu, perfformio ac yn y blaen, ac yn rhoi cyfle i fi ddysgu am y grefft.*

G: Mi wyt ti'n recordio stwff a'u postio nhw ar dy dudalennau Facebook a Soundcloud yn weddol gyson-cymysgedd o stwff wedi recordio yn broffesiynol a stwff mwy DIY, ac o gerddoriaeth a stwff 'Spoken Word', o stwff Cymraeg a stwff Saesneg. Pa mor bwysig ydi'r ffiniau rhwng sgwennu, perfformio, iaith a cherdd i chdi'n bersonol?

SM: *Na, ddim yn bwysig iawn o gwbl. Mae noda yn iaith hefyd dydi, mewn ffordd. Dydy'r ffiniau ddim yn bwysig iawn i fi. Y creu sy'n bwysig, a dydio'm otsh ym mha gyfrwng i fod yn onesd.*

G: Achos ti'n sgwennu yn Gymraeg ac yn y Saesneg yn dwyt?

SM: *Yndw, dwi'n symud rhyngthyn nhw. Wrth weithio efo cyfrwng, fel perfformio, canu, theatr, dyla'r iaith fod yn*



naturiol dwi'n meddwl. Dydw i ddim yn cyfyngu fy hyn, ond yn defnyddio beth bynnag sy'n gweddu i'r darn penodol o waith ydw i'n gweithio arno fo ar yr eiliad honno.

G: Sgen ti unrhyw brosiecta' difyr ar y gweill ar hyn o bryd 'ta?

SM: *Wel, ar y funud dwi'n hunan-gyflogedig, ac yn cydweithio ar brosiect efo pobol sy'n dioddef o Ddimensia. Dwi'n defnyddio yr hyn sgenna i o ran perfformio, ac yn defnyddio geiria a cherddoriaeth yn Saesneg a Chymraeg i greu gwaith efo nhw. Dwi hefyd yn gweithio fel tiwtor efo plant a phobol ifanc, yn tiwtora sioeau Sbarc yng Nghaernarfon a Theatr Fach Llangedfni. Dwi'n ffendio fod y gwaith yma ym plethu'n dda efo fy llwybr theatrig a geiriol i, mewn ffordd.*

Dwi hefyd yn paratoi at berfformiad o hanes Macsen Wledig efo Fiona Collins yng Nghwyl Chwedleua Aberystwyth ddechrau Mawrth. Dwi'n mwynhau adrodd, archwilio, dehongli a pherfformio straeon a chwedlau, a dwi'n gyffrous iawn am gael gweithio efo Fiona.

G: Pa fath o themâu sy'n dy ysbrydoli di felly?

SM: *Dwi'n tueddu i sgwennu am lefydd- lle gesh i fy magu, a fy nheulu a ballu yn benodol. Wrth dyfu fyny oni wastad yn*

symud o le i le, aros yn tŷ mam, wedyn tŷ dad. Wedyn nes i symud i Lundain. Felly swni'n deud fod yr ansefydlogrwydd daearyddol 'na wedi cael dylanwad arna i. Hefyd, y syniad o fod yn blentyn, dwi'n sbio nol lot ar hynny hefyd, er enghraifft, mewn darn o waith nes i yn ddiweddar yn y Galeri, fel rhan o'r Helfa Gelf 2016 lle oni'n creu darn o waith celf perfformiadol efo llwyau. Mi roedd dylanwad plentyndod yn gryf iawn ar hwnna.

G: Be am bobol sydd wedi dylanwadu arna ti 'ta?

SM: *Ooo ma na lot o wahanol ddylanwada. Wrth ddechrau coleg, mashwr swni'n deud Kate Bush, Bjork ac artistiaid Spoken Word fel Kate Tempest. Ma hi'n dod yn enedigol o'r ardal neshi symud iddi hi yn Llundain. Neshi rioed ei chyfarfod hi, ond o ddarllen ei gwaith hi, mi oedd y geiria fel monolog, a dwi'n licio'r math yna o beth, achos perfformiad ydi o ar ddiwedd y dydd.*

Mi geshi fy nenu at neud Spoken Word achos yr elfen berfformiadol - pwysigrwydd y llais, y steil fel baled, perthynas y sens a'r sŵn- rhythm y geiria, a gallu trin rwbath mewn ffordd oedd yn teimlo'n naturiol. Dwi'n cofio oni ar y trê yn

teithio, ac wedi bod yn sgwennu llwyth o bytiau bach. Mi o'n i'n ei hailddarllen nhw i gael gweld be oedd gennai, a meddwl gweld tybed 'swni'n medru gneud iddyn nhw weithio fel darn o lefaru, a mynd nes i o fanno wedyn.

G: Wel diolch yn fawr i chdi am rannu dy gyfrinacha oll efo ni, a phob lwc efo'r holl brosiecta 'ma!

soundcloud.com/sianmir

facebook.com/sian.miriam

instagram.com/sianimir

[youtu.be//qFLNQPy4GdU](https://youtu.be/qFLNQPy4GdU)
(*Woman Child*)



AILBOBI JONES

Gwnaeth Y STAMP addewid i gloddio am waith llenorion Cymraeg a anghofiwyd gan y status quo. Yn y rhifyn hwn, bydd Gwen Saunders Jones yn rhoi sylw i Gwerful Mechain (fl. 1460 - 1502), yr unig fardd benywaidd canoloesol Cymraeg sydd â chorff sylweddol o'i gwaith wedi goroesi.

GWEN SAUNDERS JONES GWERFUL MECHAIN – Y SPICE GIRL CYNTAF?

** Ymddiheuriad rhag blaen os nad ydych yn ffan o'r Spice Girls, ond mae yna gysylltiad – wir. **

Yn dilyn fy ngwahoddiad gan y Stamp i ysgrifennu erthygl am Gwerful Mechain, dechreuais feddwl am sut y byddwn i'n creu darlun cynhwysfawr ohoni mewn un erthygl. Roeddwn am gynnwys ei chefnidir teuluol, damcaniaethu ynghylch sut y dysgodd ei chreffft, a'r ymateb a gafwyd i'w cherddi dros y blynyddoedd.

Ond yr wythnos diwethaf, wrth wyllo dogfen am y Spice Girls, aeth hynny i gyd drwy'r ffenestr, a chefais weledigaeth. Wrth i gyflwyniad y ddogfen drafod sut y ffrwydrodd y genod ar y sîn bop yn ystod y goau, yn chwa o awyr iach yng nghanol y boybands, dechreuais feddwl - onid dyma a wnaeth Gwerful yn ystod hanner olaf y bymthegfed ganrif? Wedi'r cyfan, llais newydd, ffres a benywaidd oedd hithau hefyd yng nghanol beirdd gwrywaidd ei hoes, gan rois ysgytwad iawn i'r drefn gymdeithasol a dderbyniwyd yn ddi-gwestiwn.

Nid oes ond rhaid edrych ar 'l ateb leuan Dyfi am gywydd Anni Goch' gan Gwerful; cerdd sy'n ymateb i ddyd wedi iddo lunio cerdd yn lladd ar y merched a'u cyhuddo o beri dinistr i wŷr. Merch gwbl hyderus, eofn, a chwim ydi Gwerful, sy'n chwarae leuan ar ei gêm ei hun, gyda'i rhestr ei hun o ferched a ddiodeffodd oherwydd twyll y dyn, gan ddefnyddio'r merched hyn fel ei byddin personol, yn gefn iddi, gan roi swaden go boenus i ego gwrywaidd leuan ar yr un pryd.

Fel Ginger, Sporty, Scary, Baby a Posh eu hunain, undod mewn nerth oedd neges Gwerful, ac undod rhwng merched ar hynny, gan ddangos bod modd iddynt oresgyn y rhwystrau a osodwyd oherwydd eu rhyw, a gwneud hynny'n ddi-ofn a di-lol.



Genre arall a welir gan y Gwerful ddi-lol yw yn ei chanu maswedd. Un o'i dylanwadau wrth lunio'i cherdd enwog 'Cywydd y Gont' oedd y diffyg mewn disgrifiadau corfforol manwl o'r ferch mewn llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol, ac ni roddwyd sylw ond i'r rhannau hynny o'r corff a ystyriwyd yn dderbyniol, fel y gwallt a'r aelau. Y mae hyn yn dân ar groen Gwerful, ac ni wastraffa unrhyw amser yn codi dadl yn y cywydd hwn. Drwy wneud hyn mae Gwerful yn tynnu sylw'r gynulleidfa at y ffaith nad oedd cerddi'r beirdd yn ddrych i realiti'r cyfnod, ac yn ei thro, fe ychwanegodd elfen ddynol a real at ei chanu.

Mae'r un fath o agwedd yn yr ymddiddan erotig rhyngddi hi a Dafydd Llwyd. Nid oes unrhyw ymatal parchus yma, wrth i Dafydd holi Gwerful a oedd unrhyw ferch â gwain ddigon hir i'w 'ddal' ef! Mae Gwerful yn ei ateb yn ôl yr un mor uniongyrchol, gan ei gymharu â

thafod cloch Padarn! Mae'n gwbl amlwg beth yw agenda Gwerful yma; wedi ymgais hyderus y llanc i ddenu'r ferch â'i 'lestr' y mae hithau'n benderfynol o roi taw ar ei frolio. Yn nechrau'r gerdd, mae Dafydd yn eitha' sicr y bydd Gwerful yn fodlon cael rhyw gydag o, ond wrth i'r gerdd symud yn ei blaen, y mae'n gwbl amlwg bod ei rhywioldeb hi fel merch yn ormod iddo! Byddai Gwerful wedi'i fwyta'n fyw!

Dichon nad y ffaith mai trafodaeth ddirwystr am ryw a gododd wrychyn sawl unigolyn y cyfnod, ond y ffaith mai *merch* oedd yn cynnal y drafodaeth honno, a hynny'n hyderus ac yn orfoddelus. Drwy ddangos i ferched eraill y gallent achub cam ei gilydd, dangosodd ei chymeriad apelgar a chadarn.

Yn union fel y genod â'u mantra o 'Girl Power', yr hyn sy'n amlwg yn y cerddi dan sylw yn yr erthygl hon yw bod ganddi hithau hefyd faniffesto ar waith. Maent yn gwneud iawn am ddiffygion y cyfnod ynghylch rôl y ferch, a'i hawydd i dynnu sylw at eu dyheadau a'u teimladau nhw, a hynny mewn arddull sy'n gyfuniad o'r ysgafn a'r dwys.

Roedd Gwerful a'r genod yn gymeriadau y gellid uniaethu â nhw, nid oeddent yn cywilyddio o achos eu rhyw, nac yn malio ychwaith am y cynodiadau a ddaeth gyda lleisio safbwynt benywaidd yn gyhoeddus.

Profa farddoniaeth Gwerful y gellid derbyn merch fel prydyddes ar yr un telerau â'r dynion, a herio ideoleg Cymru'r Oesoedd Canol ar yr un pryd. Yn yr un modd, gwelwyd y Spice Girls yn annog pob merch i godi ei llais ac i fynegi barn, er mwyn bod yn gyfwerth â dyn mewn cymdeithas.

Er nad ydw i'n honni am eiliad bod Gwerful yn gwneud backflips wrth iddi fod yng nghanol cwmni'r dynion yn rhialtwch y tafarndai, nac ychwaith yn gwisgo lliain sychu llestri â'r Ddraig Goch arni, mae'r gyffelybiaeth rhyngddi hi a'r genod yn profi mai'r un brwydrau sy'n wynebu'r ferch waeth pa ganrif yw hi.



Celf gan Grug Muse



Y Spice Girls - Gwerfuliaid ein hoes?

Pa lenorion anghofiedig yr hoffech chi weld eu gwaith yn cael ei ailbobi?

golygyddion.ystamp@gmail.com // [@ystampus](https://www.instagram.com/ystampus)

GWERFUL MECHAIN ENGLYNION

I'W GŴR AM EI CHURO

Dager drwy goler dy galon – ar osgo
I asgwrn dy ddwyfron;
Dy lin a dyr, dy law'n don,
A'th gleddau i'th goluddion.

I'W MORWYN WRTH GACHU

Crwciodd lle dihangodd ei dŵr – 'n grychiast
O grochan ei llawdwr;
Ei deudwll oedd yn dadwr',
Baw a ddaeth, a bwa o ddŵr.

AT DAFYDD LLWYD

Cei bydew blew cyd boed blin – ei addo
Lle gwedde dy bidin;
Ti a gei gadair i'th eirin,
A hwde o doi hyd y din.

GRUG MUSE Y BRAIN

Y Brain

A glywi di
y lleisiau crug
fel cregyn môr
yn crensiân?

"Gwena, chica-sbia,
mae'r jac y do
yn syllu lawr o'r polion
'letrig
â ll'gada fel capia llefrith.

Dweda, welist ti
y bysedd cŵn eleni
yn codi, fel dadeni
o ludw'r ffridd?

A welais ti y pridd
yn fenig cnebrwng
am ddwylo'r plant?,"

Mae ei mwng crych
yn llawn dail crin
a'i llygaid
fel dau wydryn gwin.

Jo jo jo
meddai'r hen jac do.



Bydd cyfrol gyntaf Grug Muse, *Ar Ddisberod*, allan gyda Cyhoeddiadau Barddas ym mis Mai 2017.

ADOLYGIADAU

Mae pob adolygiad unigol o gynnyrch newydd Cymraeg yng nghylchgrawn Y STAMP yn ddiennw, gyda'r adolygwyr sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn yn cael eu cydnabod ar dop y tudalennau (gweler trosodd).

PANTYWENNOL Ruth Richards

Y Lolfa ~ £7.99



Â minnau wedi edrych ymlaen cymaint at gael sgwennu'r pwt o adolygiad hwn yn ddiennw, mae'n rhaid imi gyfaddef y bu imi obeithio fod *Pantywennol* yn stincar o nofel sâl. 'Y fath ryddid sydd gennyf!' meddyliais (gan ddyfynnu'r Parchedig Rhys Lewis). Ond, fe'm siomwyd i ar yr ochr orau.

Dynes yn ei hoed a'i hamser ydi traethydd a phrif gymeriad y nofel, sef Elin a'i galwyd yn Fwgan Pantywennol. Myfyrio y mae hi mewn alltudiaeth ar ei bywyd yn sgil marwolaeth ei chwaer, Catherine ('Asiffeta') ac aelod o'r gymdeithas, Mari Ifans Llidiart Gwyn, gan ragweld ei marwolaeth ei hun gan 'mai teirgwaith ar y tro y gneith angau daro.' Gweld y cyfle y mae hi i adrodd gwirioneddau hanes Bwgan Pantywennol ar ôl derbyn llythyr cyffes gan hen gyfaill iddi. Rhyw fath o oollyngdod a rhyddhad i'w chydwybod ydi'r adrodd i'r hen ferch, felly.

Peidiwch â 'ngham-ddallt i - mae gan y nofel ei ffaeleddau. Wedi'r cwbl, prin iawn yw'r nofelau perffaith. Fy mhrif gŵyn amdani ydi ein bod ni'n colli un o'r cymeriadau disgleiriaf ar gychwyn y stori, sef Lora, ffrind gorau Asiffeta. Mae portread yr awdures o'u cyfeillgarwch yn *second to none* fel y dychmygaf y dywedai'r ddwy. 'Dw i'n dal yn y niwl ynglŷn â beth ddigwyddodd rhwng y ddwy gan rwygo'u cyfeillgarwch am byth. Mi fuasai'r nofel lawer cyfoethocach petai'r awdures wedi penderfynu esbonio'r cweryl i'w darllenwyr rhyw ben. Mi ddois i i licio'r Asiffeta honno a oedd yn rhan o'r ddeuawd snoblyd, ond wedi hynny doedd hi ddim hyd yn oed yn un o'r cymeriadau hynny y mae un yn caru ei chasáu. Do'n i jest ddim yn ei licio hi, a dyna ddiwedd ar y mater.

Ta waeth am Asiffeta, dawn cymeriadu'r awdures ydi trysor y nofel. Wrth gwrs, mae Elin ei hun yn gymeriad direidus, hoffus, ffraeth a chofiadwy a phob dim arall y mae un yn dymuno i'w prif gymeriad delfrydol fod. Braidd yn rhagweladwy ydi'r fam - yn stereoteip ailadroddus o famau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ein llenyddiaeth. Y fam dduwiolfrydig, ofergoelus - yn weddw gref o gorff a ffydd. Er hynny, mae Ruth Richards yn llwyddo i ennyn ein diddordeb. Ond, drwy'r is gymeriadau y gwelwn ei dawn yn sgleinio. Fy hoff gymeriad? Kilsby, yn ddi-ffael. Er mai cameo ydi o, hwn ydi seren y nofel. Gwirionais ar ei ffraethineb a'i frawddeg, "Gwrandewch, bobl annwyl, ni wastiodd neb erioed eiliad yn sgwrsio â'r werin." Hileriy.

Rŵan am y plot. Mae hi'n un dda. Nid y gorau o blith nofelau efallai, ond yn un da er hynny. 'Dw i'n teimlo fod yr awdures wedi mynd i hwyl wrth ei chynllunio a'i bod hi wedi bod cyn driwied i'r stori a gadwyd ar lafar gwlad a medra un wrth sgwennu nofel. Mi wnes i ryw fymryn o swotio ar ôl darllen y 123 o dudalennau (ac nid er mwyn yr adolygiad hwn achos nelo'r hanes ddim byd mewn gwirionedd a *Pantywennol* fel nofel yn ei hawl ei un) gan fy mod i wedi fy swyno gan yr hanes. Yr hyn a gasglais i oedd mai merch yn ei harddegau oedd yn gyfrifol am waith Bwgan Pantywennol yn y gobaith o ddychryn ei mham o'r cartref iddi hi gael y tŷ iddi hi ei hun. Nid dyma'r trywydd â Ruth Richards ar ei ôl, ac a dweud y gwir, mae'n fil gwell gen i fersiwn y nofel hon. Crea'r awdures ddirgelwch gan orfodi'r darllenwyr gwestiynu sawl aelod o gymdeithas ofergoelus Mynytho'r ganrif.

Themâu amlycaf y nofel ydi ofergoelion a chrefydd. Diolchaf nad ydi'r awdures wedi ffantaseisio tloidi'r cyfnod gan fod hynny'n dod â joch o ffresni iddi. Os rhywbeth, mae'r prif gymeriadau'n weddol gyfforddus eu byd. Mae 'na gyfeirio at ffasiwn y cyfnod yma ac weithiau mi gewch chi'r teimlad fod chwirydd Pantywennol yn bychanu dillad y difreintiedig yn eu plith. Lora ac Asiffeta sydd yn cynrychioli crandrwydd a moethusrwydd ar ddechrau'r nofel. Wedi i Emaniwel, brawd Elin, wneud ei ffortiwn ar y môr mae Elin ei hun yn '*spinster of independent means*' ac yn gefnog iawn hyd at ei diwedd. Ond ydi arian yn prynu hapusrwydd? Mi drosglwyddaf y penderfyniad i chi'r Stampwyr.

ADOLYGIADAU

IESTYN TYNE

MIRIAM ELIN JONES

CARYL ANGHARAD


GRUG MUSE

GARETH EVANS JONES

LLŶR TITUS

OPTIMIST ABSOLIWT Menna Elfyn

Gomer ~ £12.99




Nid heb beth petrusder y cychwynais ar ddarllen cofiant newydd Menna Elfyn i Eluned Phillips. Mae pawb wedi clywed y sibrydion – yr honiadau nad oedd hon, enillydd coron dwy Eisteddfod Genedlaethol yn fardd

dilys. Dyma gofiant sy'n chwalu'r holl ensyniadau hynny yn deilchion. O'r diwedd, caiff y Prifardd Eluned Phillips ei dangos am bwy oedd hi go iawn – rhywun eithriadol o alluog ac amlochrog a gawsai ei phardduo'n ddidrugaredd gan y sefydliad barddol yng Nghymru. Dyma wraig oedd wedi teithio'r byd, gan edrych tu draw i ffiniau cyfyng ei gwlad am ysbrydoliaeth i'w gwaith, nid yn unig fel bardd, ond fel sgriptwraig a libretydd dawnus.

Gyda thristwch y mae rhywun yn darllen am y croeso cynnes a gawsai draw yng Ngogledd America mewn cyferbyniad â'r wincio a'r pwnio slei tu ôl i'w chefn yma yng Nghymru. Trwy'r cyfan, mae Menna Elfyn yn pwysleisio'r optimistiaeth hwnnw a'i cadwdd i fynd trwy'r drwg a'r da, a'i amharodrwydd i ildio yng ngwyneb popeth. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys y ddwy bryddest eisteddfodol a llyfryddiaeth gynhwysfawr. Dyma waith dadlennol sy'n taro golau newydd ar gymeriad hynod ddifyr na chawsai hanner y sylw a haeddai yn ei hoes ei hun.

JWG AR SELD Lleucu Roberts

Y Lolfa ~ £7.99



Gallu chamelon-aidd Lleucu Roberts i ymdoddi i bob tafodiaith, gan felly fedru gynrhychioli cymeriadau o Gymru gyfan, sy'n ei gwneud yn awdur arbennig. Y cymeriadu yw cryfder y

gyfrol hon, gyda nifer ohonynt yn aros yn y cof, megis Lora, yr uber-bwyllgorwraig sy'n codi pac a mynd yn y stori 'Lawntie' a Jessica, glanhawraig y Senedd yng Nghaerdydd a mam gefnogol iawn, yn 'Yr Eliffant yn y Siambr'.

Heb os 'Yr Eliffant yn y Siambr' yw perl y casgliad. Mae'r lanhawraig a'r fam sengl yn wrthgyferbyniad trawiadol i'r siwtiau stiff sy'n malu awyr yn y senedd. Mae'r clash rhwng agweddau'r Dosbarth Canol Cymraeg Cyfforddus (gyda phrif lythrennau hunan-bwysig) ac unigolion dosbarth gweithiol hefyd yn dod i'r amlwg yn 'Tyrau', wrth i'r ddau fyd fethu deall agweddau ei gilydd at DJ poblogaidd sy'n rhyfeddol o debyg i Tommo.

Roedd straeon fel 'Cefnitherod' dwtsh yn sentimental at fy nant, ac yn delfrydu awydd pawb i ddysgu ac i garu'r Gymraeg. Yn wir, roedd 'Gwarchodwch y Gymraeg, er mwyn dyn, mae'n iaith i bawb' yn gic gyson ymhob stori a hynny'n brifo neb ond darllenwyr sydd wedi codi off eu tinau i gefnogi siop Gymraeg a phrynu'r gyfrol... Yn bendant, llesteiriodd yr elfen bregethwrol honno ar y delweddau dychmygus a chymeriadau cryfion.

Diddordeb cyfrannu i'r Stamp?

golygyddion.ystamp@gmail.com

ADOLYGIADAU

IESTYN TYNE

MIRIAM ELIN JONES

CARYL ANGHARAD


GRUG MUSE

GARETH EVANS JONES

LLŶR TITUS

Y GWREIDDYN Caryl Lewis

Y Lolfa ~ £7.99



Yn yr un modd â'i chyfrol gyntaf o straeon byrion, *Plu*, mae *Y Gwreiddyn* gan Caryl Lewis, yn canolbwyntio ar berthynas unigolion â'i gilydd a'r ddealltwriaeth gyfrin sy'n gallu bodoli rhwng rhai. Gwelir perthynas o'r fath drwodd a thro yn y straeon hyn, gyda chymeriadau fel John Erw-las a

Ginny Llwyngwyn yn 'Swper y Llancie', ac Eunice, y gyn-gantores, a merch fach y ddynes sy'n torri'i gwallt yn 'Y Parlwr'.

Fel sy'n nodweddiadol o weithiau Caryl Lewis, mae tafodiaith Ceredigion yn britho'r dweud ac yn ategu at y sgwennu sy'n gynnil a hynod deimladwy. Ceir hefyd drafod amrediad o themâu, gan gynnwys trais yn y cartref, unigrwydd, newid mewn cymdeithas, ieuenctid a henaint, a hynny heb bregethu na gor-sentimentaleiddio.

Gellid dweud, efallai, fod byd a chymeriadau'r gyfrol yn eithaf tebyg i rai o weithiau eraill Caryl Lewis. Byddai wedi bod yn ddifyr cael ychydig mwy o straeon yn trafod cymeriadau 'gwahanol' yng nghefn gwlad Ceredigion, fel yn 'Y Llif' gyda Piotr, y Pwylad. Wedi dweud hynny, mae elfennau yn *Y Gwreiddyn* sydd yn sicrhau ei bod yn gyfrol wreiddiol.

Mwynheais y gyfrol yn arw, ac mae sawl stori wedi canu'n hir iawn yn y co'. Mae'n sicr yn werth ei darllen er mwyn cael cip, drwy gyfrwng sgwennu crefftus, ar berthnasau cyfrin sydd fel gwreiddiau arbennig, yn gallu clymu unigolion ynghyd yng nghanol drysi o wreiddiau gwyllt.

MACBETH Cyf. Gwyn Thomas

Barddas - £6.99

Theatr Genedlaethol Cymru
Chwefror 2017

Richard Lynch (Macbeth), Ffion Dafis (Arglwyddes Macbeth), Gareth John Bale, Sion Eifion, Owain Gwynn, Gwenllian Higginson, Phylip Harries, Aled Pugh, Martin Thomas, Tomos Wyn a Llion Williams



Adolygydd 1

Cyn mynd i drafod y cynhyrchiad mae'n rhaid i mi ddatgan fod cyfieithiad y diweddar Athro Gwyn Thomas yn un gwerth chweil, heb fod yn or-llenyddol ond yn dal y math hwnnw o urddas ieithyddol mae rhywun yn ddisgwyl o

Shakespeare a Chymraeg Beibl go iawn. Fe ges i well dealltwriaeth o rai golygfeydd drwy'r cyfieithiad hwn na'r gwreiddiol.

Mae'n bosib mai camgymeriad mawr y Theatr Genedlaethol ydi nad ydyn nhw'n siŵr yn iawn sut mae gwneud cynhyrchiad 'site-specific'. Nid cario'r llwyfan hefo chi ydi diben symud i leoliad arall ond yn hytrach meddwl am ffyrdd glyfrach, gwahanol o gyflwyno'r gwaith. Roedd o'n teimlo fel cyfle wedi'i golli, dwy neu dair stafell o gastell cyfan gawson ni weld a fyddai'r darllediad fawr gwaeth pebai wedi ei lwyfannu mewn cwt beics gan gymaint o ddefnydd a wnaethpwyd o'r lleoliad.

Roedd yr actio yn dda, mwynheais ddehongliad Richard Lynch a Ffion Dafis o'r prif gymeriadau er bod llefaru'r cast yn y mowld Shakesperaidd weithiau (syndod a

ADOLYGIADAU

IESTYN TYNE

MIRIAM ELIN JONES

CARYL ANGHARAD

GRUG MUSE

GARETH EVANS JONES

LLŶR TITUS

rhyfeddod, ond does yna'm rhaid bod felly) a bod hynny yn gratio yn erbyn arddull cyfieithiad Gwyn Thomas ar brydiau. Rhywun arall sydd yn haeddu canmoliaeth ydi Gwenllian Higgins fel Arglwyddes Macduff; roedd ei chyfnod hi ar y llwyfan gyda'r mwyaf cofiadwy drwy gydol y ddrama.

Fel cynhyrchiad traddodiadol o Macbeth roedd hwn yn un da a dwi'n gobeithio ei weld o eto mew ail-ddarllediad. Er hynny roedd o'n draddodiadol iawn (hyd yn oed y pen ffug a achosodd i'r gynulleidfa yn fy sinema i chwerthin) ac roedd hi'n biti efallai bod cyfieithiad newydd ddim wedi cael ei weld fel cyfle i geisio dehongliad newydd hefyd.

Adolygydd 2

Dechreuodd y darllediad o "Macbeth" efo cyfweliad byr efo Arwel Gruffydd, y cyfarwyddwr, lle roedd o'n dweud yn dalog ddigon mor bwysig ydi hi i ni gael cyfieithiadau Cymraeg o'r clasuron. Ddwedodd o ddim pam yn union, ac mi hoffwn i yn fawr glywed be ydi'r eglurhad tros y ffasiwn ddatganiad mawreddog, a thros gael Theatr Genedlaethol Cymru yn buddsoddi cymaint o arian ac amser ar yr enwau Saesneg mawr, mewn gwlad lle mae pob un ohona ni yn medru y Saesneg ac yn medru mwynhau y gweithiau hyn yn eu ffurf gwreiddiol. Atebion ar gerdyn post os gwelwch yn dda.

Nid fod y cyfieithiad ddim yn un da. Oedd, roedd o'n ddigon taclus. Ond doedd o'n gwella dim ar y gwreiddiol, a doedd y cynhyrchiad yn ddim byd newydd – heblaw am y castell, cynhyrchiad traddodiadol oedd o, ac yn feichus dan bwysau'r traddodiad hwnnw. Os cyfieithu i'r Gymraeg, pam cynhyrchu copi carbon? Pam ddim arbrofi? Ail ddehongli?


Mae na ddisgwyliadau mawr o'r Theatr Gen. Mae'r budget a'r adnoddau yn gneud i ni ddisgwyl pethe mawr. A tydi taflu arian ar setiau drud a gimics fflashi (fel perfformio drama mewn castell) ddim yn ddigon i wneud cynhyrchiad yn wych. Digon Llugoer oedd yr ymateb yn y theatr

oeddwn i ynnddi i'r cynhyrchiad hwn. Mi roedd na amryw o seti gwag ychwanegol yn yr ail hanner. Chefais i ddim fy nghyffroi, na fy ysbrydoli. Roedd o'n dda, ac yn night awt braf am £5. Ond ai dyma'r gorau all y Gen ei gynnig?

LLYFR BACH PARIS

Lara Catrin

Gwasg y Bwthyn - £9.00



Mae hi'n anodd sgwennu llyfr teithio da. Dwi'm yn meddwl fod y genre yn cael y clod mae o'n ei haeddu am ei fod o mor ddiawledig o anodd i'w wneud yn dda. A chware teg, dydi llyfr bach Paris ddim yn gneud job rhy ddrwg ohoni. Rhyw

fath o hybrid sydd yma o ganllaw traddodiadol a chofiant, wrth i Lara fynd a ni i rai o'i hoff gaffis ym Mharis a dweud wrtha ni be wnaeth hi a pwy ffwciodd hi yn ble.

Uchafbwynt y gyfrol i mi oedd Cerdd Au Chat Noire. Mi ges i fy siomi ar yr ochor orau efo cerdd Spoken Word gynta Ms Catrin. Hoffais.

Ambell beth nad oedd yn plesio gymaint oedd y ddibyniaeth ar ystrydebau. Gochelwch rhag yr ystrydebau ydi 7 allan o 10 gorchymyn y sgwennwyr teithio. A dwnim ai ymgais i ymddangos yn soffistigedig a chontinental oedd y cyfeiriadau cyson, rheolaidd at ei sex life, ynteu ymdrech i ymddangos yn edgy trwy sgwennu am sex yn Gymraeg, a falle mai fi sy'n prude, ond doedden nhw jest ddim yn talu am ei lle. Mae hi wastad yn anodd i ferched ysgrifennu am ryw. Dim digon o secs, ac mae merch yn hen fursen sych-syber sydd wedi ei gormesu gan foesau Judeo-Gristnogol y patriarchaeth. Gormod o sex a mae hi'n hen hwch fudur. Dwi ddim isho awgrymu nad oes gan Lara Catrin ddim mwy na llai o awchau rhywiol nad sy'n naturiol i ddynes ifanc iach, ond weithiau mae'r cyfeirio

ADOLYGIADAU

IESTYN TYNE

MIRIAM ELIN JONES

CARYL ANGHARAD

GRUG MUSE

GARETH EVANS JONES

LLŶR TITUS

parhaus at y cyffro rhwng ei choesa yn, wel, ymylu ar fod yn ddiflas. Ac yn eithaf hen ffasiwn deud y gwir. Ac mi fuasai cael ambell i ffigwr gwrywaidd sydd heb ei objectifyio i ddim mwy na pidlan efo barf yn hyfryd.

Pan mae Lara Catrin ar ei gorau, mae hi wir yn dda iawn. Mae ganddi hi lygad dda i ddal pobol, a mae'r fignets hynny lle mae hi'n diosg yr ystrydebau ac yn sgwennu am be mae hi'n ei weld yn hyfryd. Mae cymeriadau fel Mme Phillipe a'r dyn mewn cordyris ar y trêrn yn hollol fyw.

Ac ia. Pwy ddiawl ydi Julia?

ABERMANDRAW Rhys Iorwerth

Gomer - £7.99

Mi ydan ni i gyd yn gyfarwydd â'r hen ddywediad Seisnig hwnnw a rybuddia *don't judge a book by its cover*. Ond os bu erioed glawr a wna gam â chynnwys cyfrol, clawr *Abermandraw* ydi honno.

Mae'r gyfrol hon i'r gwrthwyneb yn llwyr i dduwch a phlaendra ei dyluniad. Sgrech o liwiau'r

enfys yw hi. Rho'r gyfrol i bob pennod ei chymeriad, ac i bob cymeriad ei liw unigryw.

Abermandraw yw prif gymeriad y bennod agoriadol. Yn y bennod honno, â'r traethydd â'i ddarllenwyr ar ryw fath o *guided tour* o'r dref gyfoes. Tref lwydaidd a thlawd ydyw ar yr olwg gyntaf. I'r sawl sy'n gyfarwydd â thref enedigol yr awdur (sef Caernarfon) mae hi'n hawdd iawn gweld o le y cawsai y Cofi ei ysbrydoliaeth. Yn arbennig felly yn iaith lafar amlwg y gyfrol ac wrth iddo ddisgrifio lleoliadau fel y bwcis a'r

safle bws. Portreadau o gymeriadau yw pob pennod a'i dilyna, a disgrifia fywyd pob dydd trigolion Abermandraw wrth iddyn nhw baratoi at gynhebrwng ar ddydd Mawrth.

Un o'r pethau a'm plesiodd i fwyaf am *Abermandraw* oedd ei bod yn hunangyfeiriol. Tydi hi ddim yn gyfrol realaidd. I'r gwrthwyneb: atgoffa'r traethydd o hyd mai ffuglen ydi hon ac mai darllen y mae'r darllenwyr. Drwy'r gyfrol cawn frawddegau fel, 'mae'r glaw wedi peidio bellach; mae'r gwynt yn y coed wedi gostegu ac mae mantell y nos wedi syrthio dros bob man. Fel y mae hi'n aml mewn straeon fel hyn.' Da, 'de?

Rŵan, am yr hyn nad oedd yn taro deg. Ymddengys hiwmor du'r gyfrol yn straenllyd ar adegau. Mae'n rhaid imi gyfaddef fy mod i wedi crinjan fwy nag unwaith wrth ei darllen, a hynny am fy mod i'n teimlo fod yr awdur wedi trio ei orau glas i fod mor ddadleuol â phosib, a hynny ar brydiau yn afraid. Y cymeriadau a ddengys hynny yw Elin Baba (y wraig ddiffwrwyth) a Ffatibwmbwm Tilsli, y *bar man* gordew. Mae eu henwau'n unig yn dyst i'm barn.

Ysyaeth am hynny, mae hiwmor du'r gyfrol yn llwyddiant ysgubol mewn mannau eraill. Y cymeriadau fwyaf llwyddiannus imi oedd yr hoywon Mwslimaidd, Hakan a Demir. Chwaraea'r awdur ar yr hiliaeth sydd wedi lledaenu'n bla anesmwyth dros fisoedd y BREXIT. Yn *Abermandraw* 'mae eu hiaith yn anghyfarwydd, fel y mae eu croen a'u crefydd' ond mae 'archwaeth am garbohydrets' yn trechu ofnau terfysgol trigolion. Cawn olygfa rywiol wreiddiol o gignoeth o'r ddau gymeriad hynny sydd yn berchen ar siop gebabs y dref. Dyma gymeriadau cryfaf y bennod. Y rheiny ac Y Dyn sy'n Gweithio i'r Cyngor Sir, sydd hefyd o drwch blewyn i'r brig.

Llwydda'r awdur i gynnal ein diddordeb drwyddi draw. Mae yn *Abermandraw* fwy o fudreddi na phorno a mwy o regfeydd (a gwell rhegfeydd) nag a glywch ar y boc ar ôl naw. Mae gan yr awdur lais dweud stori ddiamheuol o dalentog. Mae Awen y prifardd yn disgleirio drwy ei ryddiaith. Bron y gallwch chi glywed rhannau o gerddi yn y naratif. A gwae bwysigion rhestr fer llyfrau 2017 os na chaiff y gyfrol hon ei dyledus le arni.

Y STAMPWYR

Menna Elfyn*www.mennaelfyn.co.uk*

Bardd, dramodydd a golygydd. Awdures deg cyfrol o farddoniaeth, gyda'r nesaf, *Bondo*, i'w ryddhau yn ystod 2017, a nifer fawr o ddramau radio, llwyfan a theledu. Bardd plant Cymru 2002.

Gareth Evans Jones

Dramodydd ac awdur yn ei flwyddyn olaf yn astudio PhD ym Mhrifysgol Bangor. Enillydd Coron Eisteddfod Môn Bro Paradwys 2016 am gasgliad o ryddiaith greadigol.

Caryl Bryn*@CarylBryn*

Myfyrwraig o Borth Amlwch, Môn ar ei blwyddyn olaf yn astudio gradd mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor. Yn ysgrifennu am brofiadau personol a materion cyfoes, yn ogystal â gwaith yn null yr hen benillion.

Rhys Trimble*@rhystrimble*

Bardd a pherfformiwr dwyieithog sy'n byw ym Methesda. Golygydd cylchgrawn Ctrl+Alt+Del. Diddordeb mewn Cymraeg canoloesol, cerddoriaeth, celf ddigidol a dulliau ysgrifennu avant garde.

Morgan Owen*@morgowen*

Bardd a llenor o Ferthyr sydd bellach yn fyfyrwr MA ym Mhrifysgol Caerdydd.

Miriam Elin Jones*@miriamelin23*

Llenor a myfyrwr PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth.

Grug Muse*@Elan_Grug*

Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyrwr ymchwil yn adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe.

Iestyn Tyne*@iestyn_tyne*

Llenor, cerddor a myfyrwr ar ei ail flwyddyn yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd a chadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru 2016. Cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf o gerddi, *addunedau*, eleni.

Gwen Saunders Jones*@gwensaunders85*

Awdures a chyfieithydd o Farian Glas, Môn. Gradd Ddoethur mewn Barddoniaeth Gymraeg gan ferched, ac awdur cyfrol *Llên y Llenor: Alis ferch Gruffudd a'r Traddodiad Barddol Benywaidd*.

Llŷr Titus

Awdur a dramodydd sydd wrthi yn astudio PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Enillodd *Gwalia*, ei nofel ffug wydonol i blant wobwr Tir Na N'og yn 2016.

Caryl Angharad*@caryl_angharad*

Myfyrwraig y Gymraeg ar ei hail flwyddyn ym mhrifysgol Bangor. O Garmel ger Caernarfon. Gweithio yn Topshop ar benwythnosau. Llyfrbryf sy'n hoffi rhedeg, sgwennu a thafarnau.

Aberystwyth y dewis cyflawn!

www.aber.ac.uk/cymraeg

GORAU

YNG NGHYMRU
A RHIF 4 YN Y DU

ACM 2016

AM FODLONRWYDD
MYFYRWYR

Cyfeithu | Cymraeg Proffesiynol | Iaith | Llên
Yr leithoedd Celtaidd | Ysgrifennu Creadigol



£3.00

Argraffwyd gan Argraffwyr Cambrian